

Pwysigrwydd Ymarfer Myfyriol i Ddatblygiad Proffesiynol yn y Gweithlu Blynyddoedd Cynnar

Beth yw Arfer Myfyriol?
Yn ôl ffynhonnell sydd yn trafod “Reflective Practice Models” University College Dublin, mae Ymarfer Myfyriol yn gylchred o welliant lle mae ymarferwyr yn cynnal gwerthusiad ac arsylwi ar eu gweithredoedd yn ystod ymarfer, mae hyn yn caniatáu iddynt ddysgu a dod i ddeall pam y gwnaethant yr hyn a wnaethon nhw, ac os gallent wella y tro nesaf. Mae Reed a Canning (2010) yn awgrymu bod disgrifiad arall o Arfer Myfyriol yn gylchred o deimladau a meddwl am weithredoedd neu brofiadau ymarferwyr fel y gallant amlygu ardaloedd sydd yn gweithio yn dda ac ardaloedd y gallent eu gwella, er mwyn datblygu a chael gwell dealltwriaeth o eu gweithredoedd ac eu penderfyniadau yn y dyfodol. Hawlia Brock (2015) fod Ymarfer Myfyriol yn hanfodol i arfer proffesiynol, ac yn werth hanfodol i ymarferydd proffesiynol gyda y sector Blynyddoedd Cynnar ac Addysg. Brock (2015), ynghyd ag ymchwili ar Forde, et al. (2006) yn awgrymu bod gwerthoedd personol ymarferwyr yn adlewyrchu ac yn dylanwadu ar sut maent yn gwneud eu penderfyniadau, neu yn ymateb. Mae Schon (1983) yn nodi bod Ymarferydd Myfyriol yn caniatáu iddynt deimlo yn ddryslyd neu wedi synnu ar adegau o ddatrys problemau. Maent yn myfyrio ar yr hyn a ddigwyddodd gan ddefnyddio gwybodaeth flaenorol, sydd yn dylanwadu ar eu gweithredoedd. Mae yr ymarferydd yn edrych yn ôl i gwbllhau cylchred myfyriol o welliant a rhoi gwybodaeth newydd i mewn ei ymarferion.


Pam ydy Ymarfer Myfyriol yn bwysig?
Mae Brock (2015) yn awgrymu bod arfer myfyriol yn bwysig i helpu ymarferwyr i lywio penderfyniadau yn y dyfodol. Mae hi yn awgrymu bod myfyrio yn ddefnyddiol ar gyfer gwella ymarfer er mwyn cael canlyniadau gwell, oherwydd pan fydd ymarferwyr yn myfyrio ar sefyllfaoedd sydd wedi digwydd yn ymarferol gall helpu i wella a datblygu eu sgiliau. Hawlia Brock (2015) fod ymarfer myfyriol yn cynyddu ymwybyddiaeth o eu galluoedd ac eu rhinweddau. Mae hi hefyd yn dweud bod gweithiwr myfyriol yn datblygu ac yn cynyddu eich cyflogadwyedd. Mae Hallet (2013) yn nodi bod arfer myfyriol yn bwysig i gefnogi ymarferwyr i allu cynnal gwelliant parhaus a hyrwyddo arfer proffesiynol yn y sector blynyddoedd cynnar ac addysg. Yn ôl Paige-Smith (2011) gall ymarfer myfyriol achosi newidiadau a datblygiad mewn canfyddiadau o fewn ymarfer. Mae Brock (2015) yn credu bod myfyrio yn effeithiol i hyrwyddo ac ysbyrdoli cyfleoedd cynllunio newydd, difyr a chyffrous i y plant fwyngau a dysgu yn greadigol. Mae Brock (2015) hefyd yn trafod bod myfyrio yn ddefnyddiol i ymarferwyr i wella eu cymwysterau neu i ddatblygu ymhellach yn ymarferol, er enghraifft trwy gael dyrchafiad yn eu lleoliad blynyddoedd cynnar.

Modelau Myfyriol
1. Driscoll (2007)
Mae model myfyrio Driscoll yn symlrwydd, Mae e yn trafod tri chwestiwn syml a chryno:
• Beth?
• Felly beth?
• Beth nawr?

Gan ddefnyddio y model fyfyrion yma gall ymarferwyr ofyn y tri chwestiwn syml hyn i hunain ddadansoddi a gwerthuso eu gweithredoedd a phenderfynu a oedd yn effeithiol. Os nad oedd yn effeithiol, pam? A beth nesaf? Fel y gallant benderfynu ar y camau nesaf i wella a dysgu o eu profiadau blaenorol. Dylai ymarferwyr gofio os oedd eu gweithredoedd yn effeithiol efallai na fydd unrhyw newidiadau i wella, o ganlyniad o eu myfyrio.

2. Kolb (1984)
Mae cylchred ymarfer myfyrio arbrofol Kolb yn seiliedig ar ymchwil i ddamcaniaethau ar sut mae pobl yn dysgu. Mae e yn cynnwys pedwar cam o fyfyrion:
• Profiad concrit
• Arsylwi adfyfyril
• Cysyniadol haniaethol
• Arbrofi gweithredol


Datblygu dealltwriaeth trwy brofiad bywyd go iawn yw yr hyn mae cylchred ymarfer arbrofol Kolb o fyfyrion yn canolbwyntio arno. Mae Kolb yn dadlau y dylai ymarferwyr ddechrau myfyrio ar eu profiad. Yn dilyn profiad, dylai ymarferwyr edrych yn ôl a nodi unrhyw beth newydd iddynt a ddigwyddodd yn ystod y profiad. O ganlyniad i y cam blaenorol gall ymarferwyr ddatblygu cyfleoedd newydd o ddatrys problemau. Y cam olaf yw arbrofi trwy gymhwyso y syniadau newydd neu y cyfleoedd i sefyllfaoedd yn y dyfodol. Mae Kolb yn credu bod dysgu yn ganlyniad profiadau blaenorol a sut rydym yn myfyrio.

3. Gibbs (1998)
Mae model myfyrio Gibbs yn defnyddio dull tebyg i Kolb ond yn cynnwys tri cham arall o fyfyrion. Y chwe cham myfyrio yw:
• Disgrifiad
• Teimladau
• Gwerthusiadau
• Dadansoddi
• Casgliad
• Cynllun gweithredu


Yn debyg i y modelau myfyrio blaenorol, mae Gibbs yn dechrau myfyrio gyda phrofiad yr ymarferydd. Yn wahanol i y modelau myfyrio eraill mae model myfyriol Gibbs yn ystyried teimladau yr ymarferwyr yn ystod ac ar ôl y profiad. Nesaf yw gwerthusiad o y profiad. Gall yr ymarferwyr ofyn ei hunain a oedd yn effeithiol? Neu yn aflwyddiannus? Dadansoddi yw y cam nesaf, ble fydd yr ymarferwyr yn dod i gasgliad beth fydden nhw wedi ei wneud yn wahanol i sicrhau canlyniad gwell tro nesaf. Yn olaf, defnyddir cynllun gweithredu i nodi beth mae yr ymarferwr yn mynd i wneud i wella y tro nesaf mewn sefyllfa debyg.

4. Schon (1983)
Mae model myfyrio Schon yn edrych fel dau gysyniad.
• Myfyrio ar weithredu
• Myfyrio ar waith


Mae cysyniad Schon o ‘Reflection on action’ yn debyg i fodelau myfyrio eraill ond yn fwyaf tebyg i fodel myfyrio Driscoll, oherwydd ei symlrwydd ac ei gysondeb. Y cam cyntaf yw i yr ymarferydd fyfyrion ar yr hyn a ddigwyddodd yn ei sefyllfa flaenorol, meddwl sut aeth, penderfynu a oedd yn effeithiol, ac a oes ardaloedd i wella yn y dyfodol. Yn drydydd, yw ystyried beth sydd angen ei newid i wella y tro nesaf i ddatblygu. Mae cysyniad Schon o ‘Reflection in action’, yn wahanol i yr holl fodelau myfyriol eraill a drafodwyd. Mae e yn golygu bod yr ymarferwyr yn myfyrio ar adeg y sefyllfa yn ymarferol, mae hyn yn eu hannog i feddwl yn gyflym. Yn gyntaf bydd yr ymarferwyr yn ystyried y sefyllfa sydd yn digwydd, yna byddwn nhw yn penderfynu sut mae nhw yn mynd i weithredu yn y sefyllfa. Yn olaf, bydd yr ymarferydd yn gweithredu ar unwaith yn y sefyllfa.

Sut gall ymarfer myfyriol wella ansawdd yn y sector Blynyddoedd Cynnar?

Mae Brock (2015) yn awgrymu bod ymarfer myfyriol yn helpu ymarferwyr i ddatblygu perfformiad mewn arfer bob dydd i wella ansawdd eu haddysgu yn y sector blynyddoedd cynnar ac addysg.

Mae Tanguay (2020) ynghyd â ffynhonnell ar “Fanteision dod yn ymarferydd adfyfyril” Cyngor Proffesiynol Gofal Iechyd (2022) yn awgrymu y gall myfyrio helpu ymarferwyr i wella a datblygu nid yn unig eu proffesiynoldeb ond hefyd eu sgiliau er enghraifft datrys problemau trwy dreialu a gwall, gan helpu ymarferwyr i ddatblygu o brofiadau negyddol a chadarnhaol yn ymarferol.

Mae ffynhonnell ar “Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol” CBAC (2019) yn awgrymu y gall ymarfer myfyriol wella ansawdd yn y Blynyddoedd Cynnar trwy alluogi ymarferwyr i wella a datblygu eu hymwybyddiaeth, ohonynt eu hunain, eu sgiliau, cryfderau, gwendidau, gwybodaeth, dealltwriaeth eu rôl yn ymarferol. Mae hyn yn gwella ansawdd y gofal y mae ymarferwyr yn ei ddarparu yn y sector Blynyddoedd Cynnar neu Addysg.

Maent yn credu bod rhaid i ymarferwyr adfyfyril ystyried:

- Bod yn barod am newidiadau mewn ymarfer.
- Ystyried a meddwl am yr hyn a ddigwyddodd a sut y gwnaethant ymateb yn ystod sefyllfa?
- Pam wnaethon nhw ymateb fel hynnu?
- A oedd yn effeithiol?
- Gallwn nhw wedi gwella unrhyw beth?

Yn ôl Brock (2015), Reed a Canning (2010), a ffynhonnell yn trafod offer meddwl “Dadansoddiad SWOT” (2022) mae arfer myfyriol yn gwella ansawdd yn y Blynyddoedd Cynnar trwy ganiatáu i ymarferwyr ddysgu o eu perfformiad a datblygu yn ymarferol trwy ddefnyddio modelau adfyfyril gan ddamcaniaethwyr er enghraifft ‘Schon’ neu strategaethau fel dadansoddiad ‘SWOT’ i nodi eu ‘Cryfderau-Strengths’, ‘Gwendidau-Weaknesses’, ‘Cyfleoedd-Opportunities’, a ‘Bygythiadau-Threats’ i ddatblygu yn broffesiynol, felly pan fydd ymarferwyr yn dadansoddi eu gweithredoedd ac yn nodi ardaloedd i wella, maent yn canfod cyfleoedd newydd ar gyfer datblygiad y plant. Felly, awgrymir hyn er mwyn gwella ansawdd y gofal mae ymarferwyr yn ei ddarparu yn ystod y blynyddoedd cynnar o ddatblygiad.

Sut gall Arfer Myfyriol gefnogi Ymarferwyr a Gweithwyr Proffesiynol eraill yn y sector Blynyddoedd Cynnar ac Addysg?

Mae Brock (2015) yn nodi bod ymarfer myfyriol yn cefnogi ymarferwyr sydd yn eu galluogi i wella trwy ddatblygu eu dealltwriaeth o sut y gallant gymhwyso dadansoddiad beirniadol i ymarfer. Mae hi yn awgrymu bod ymarfer myfyriol yn caniatáu ac yn annog ymarferwyr i roi newid ar waith yn eu lleoliad er mwyn darparu cyfleoedd newydd a chyffrous i ddiwallu anghenion pob plentyn. Felly gall ymarferwyr wella y cyfleoedd mae nhw yn eu darparu yn barod ar gyfer y plant, a fydd yn mireini brofiad y plant gan eu helpu i greu perthynas gadarnhaol â dysgu. Mae Brock (2015) yn credu bod ymarfer myfyriol yn cefnogi llwyddiant personol ac yn annog cyflawniadau proffesiynol yn y gweithle. Mae hi yn awgrymu gall ymarfer myfyriol helpu ymarferwyr i wella eu gwybodaeth ac eu dealltwriaeth o ddamcaniaethau ac ymchwil a rhoi ar waith i ddatblygu yn broffesiynol.



Myfyrio Positif Ref: Cambridge University

Mae ymchwil yn awgrymu ei bod yn anoddach i ymarferwyr ddadansoddi profiadau cadarnhaol na phrofiadau negyddol.

Mae ymchwil yn awgrymu y gall myfyrio ar brofiadau cadarnhaol fod yn dasg ysgogol, gan annog gweithwyr proffesiynol i nodi eu llwyddiannau yn eu gyrfa a dathlu cyflawniadau a'u defnyddio er mantais iddynt yn y dyfodol.

Trwy ddadansoddi eu llwyddiannau, gall ymarferwyr gynllunio i ailadrodd yr hyn a weithiodd yn dda yn ymarferol.

Er yr awgrymir na ddylai ymarferwyr dreulio gormod o amser yn dadansoddi profiadau cadarnhaol gan y gallent fod yn edrych dros feysydd i'w gwella.

Myfyrio Negyddol

Mae ymarferwyr yn tueddu i ganfod profiadau negyddol yn haws i ddadansoddi, ac i ddysgu oddi wrthynt gan eu bod yn gallu adnabod yr ardaloedd sydd angen gwella yn gyflym ac yn caniatáu iddynt feddwl am ffyrdd o wella ar gyfer y dyfodol.

Credir nad oes gan unrhyw ymarferydd dechneg berffaith, felly mae lle i wella bob amser. Er ei bod yn bwysig myfyrio a thrafod ffyrdd o wella, awgrymir na ddylai ymarferwyr ganolbwyntio am rhy hir ar brofiadau negyddol.

Mae ymchwil yn awgrymu ei bod yn bwysig cadw cydbwysedd rhwng cadarnhaol a negyddol wrth fyfyrrio.

Rhwystrau i Fyfyrio

Yn dibynnu ar amgylchiadau yr ymarferwyr, gall rhwystrau i fyfyrrio codi.

Esiamplyau o'r mathau o rwystrau ffactorau (gwaith neu bersonol) yw:

- Dim digon o amser
- Diffyg Trefniadaeth
- Diffyg sgil / Gwybodaeth
- Yr Amgylchedd
- Cymhelliad
- Ymarferwyr eu hunain
- Diffyg hyfforddiant
- Diffyg arweiniad

Goresgyn rhwystrau myfyrio:

Gall ymarferwyr gweld e yn anodd ar adegau i oresgyn y rhwystrau hyn.

Mae ymchwil yn awgrymu:

1. Pennu amser i adlewyrchu er enghraifft hanner awr olaf y dydd. Oherwydd y gall helpu ymarferwyr i fynd i mewn i drefn fyfyril reolaidd. Gosod nodiadau atgoffa megis ar ffôn symudol.
2. Argymhellir ceisio trefnu amser gyda chydweithwyr i fyfyrrio ar arfer ar y cyd.
3. Awgrymir y gallai ymarferwyr arbrofi ag amgylcheddau.
4. Gallai ymarferwyr nodi eu nod i helpu i gadw ffocws ac ei ysgrifennu ac i osod yn rhywle y mae e yn debygol o eu hatgoffa.

Casgliad

I arsylwi a gwerthuso arferion, gweithredoedd ac adweithiau er mwyn datblygu a gwella perfformiad gyda y bwriad o wella ansawdd yr addysgu i blant trwy roi arferion newydd ar waith sy'n cynnwys y rhai a weithiodd yn dda ar achlysuron blaenorol ac addasu ardaloedd sydd angen newid.

Mae defnyddio ymarfer myfyriol yn cynorthwyo ac yn galluogi y gweithiwr proffesiynol i ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o arferion eu hunain a ddylai eu cynorthwyo i ddarparu y cyfle gorau i blant ifanc.

1. **Beth yw Arfer Myfyriol?**

Gwerth hanfodol i ymarferwr proffesiynol.

A. Gwerthusiad ac arsylwad o weithredoedd/adweithiau yn ystod arferion.

B. Dealltwriaeth o y prosesau teimlad a meddwl fel y gellir amlygu ardaloedd sydd yn gweithio yn dda ac ardaloedd y gellid eu gwella.

C. Arsylwi gwerthoedd personol a sut mae y gwerthoedd hyn adlewyrchu sut mae yr ymarferwyr yn gwneud penderfyniadau neu yn ymateb i arferion.

2. **Pam mae adfyfyrrio yn bwysig?**

A. Mae e yn caniatáu ac yn cefnogi ymarferwyr i gynnal gwelliant parhaus mewn arferion addysgu.

B. Mae e yn helpu ymarferwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am arferion yn y dyfodol sydd yn seiliedig ar brofiad ac arsylwadau.

C. Mae e yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu Dealltwriaeth Feirniadol o eu harferion eu hunain gan eu cynorthwyo i ddarparu y cyfleoedd gorau posibl i blant ifanc yn ystod eu dysgu.

Mae yna nifer o Fodelau Ymarfer Myfyriol sydd yn ddefnyddiol i ymarferwyr, rhai ohonynt yw Driscoll (2007), Kolb (1984), Gibbs (1998) a Schon (1983)

3. **Sut mae Arfer Myfyriol yn gwella ansawdd y blynyddoedd cynnar?**

A. Helpu ymarferwyr i wella a datblygu eu proffesiynoldeb a sgiliau er enghraifft; Datrys problemau trwy brofi a methu gan ganiatáu yr ymarferwr elwa ar brofiadau ymarferol cadarnhaol a negyddol.

B. Galluogi yr ymarferwr i wella a datblygu ei ymwybyddiaeth ohono ei hun o ei gryfderau ac ei wendidau ac i ddeall ei rôl yn ymarferol. Mae hyn yn gwella ansawdd y gofal a ddarperir mewn 'lleoliad blynyddoedd cynnar'.

C. Mae Arfer Myfyriol yn hybu gwelliant parhaus arferion a phrofiadau dysgu ac felly yn darparu gofal o yr ansawdd gorau posibl i ddisgyblion y blynyddoedd cynnar.

4. **Gwarchod diogel**

Mae hwn yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth sydd wedi ei ddatblygu drwy fyfyrrio o achosion blaenorol a dysgu oddi wrthynt.

Ymarferwyr Proffesiynol yn y Blynyddoedd Cynnar angen bod yn:

Meithringar, Empathetig, Cefnogol, Rôl model da, Cyfathrebwyr da, Amyneddgar, Cyfartal a Theg.

References:

Barber, J. and Paul-Smith, S. (2010) *Early Years Observation and Planning in Practice*. London : Andrews UK.

Brock, A. (2015) *The Early Years Reflective Practice Handbook*. New York: Routledge Taylor and Francis

Chalke, J. (2013) Will the Early Years Professional Please Stand Up? Professionalism in the Early Childhood Workforce in England.
Contemporary Issues in Early Childhood: Volume 14 Number 3

Cross, M. (2011) *Children with Social, Emotional and Behavioural Difficulties and Communication Problems*. (2nd ed). London: Jessica Kingsley Publishers.

Driscoll's reflective model image: <https://nursinganswers.net/reflective-guides/driscoll-model-of-reflection.php>

Edu. (2022) Australian Curriculum. Available at <https://www.australiancurriculum.edu.au/> [Accessed: 10th October 2022]

Education.gov (no date) Why relationships are important. Available at: <https://help-for-early-years-providers.education.gov.uk/personal-social-and-emotional-development/relationships#why-relationships-are-important> [Accessed: 17th October 2022]

Education.gov. (2022) Te Whariki. Available at: <https://www.education.govt.nz/assets/Documents/Early-Childhood/ELS-Te-Whariki-Early-Childhood-Curriculum-ENG-Web.pdf> [Accessed: 10th October 2022]

Education.gov.scot (2022) *About the Curriculum*. Available at: <https://education.gov.scot/parentzone/learning-in-scotland/about-the-3-18-curriculum/#:~:text=Curriculum%20for%20Excellence%20is%20Scotland's,Successful%20learner> [Accessed: 12th October 2022]

eteach. (2020) Teacher and TA Relationships. Available at: <https://www.eteach.com/blog/teacher-ta-relationships> [Accessed: 16th October 2022]

Gibbs reflective model image: <https://helendenheld.com/tag/gibbs-reflective-learning-cycle/>

Gov.uk (2003) Available at: <https://www.gov.uk/government/publications/every-child-matters> [Accessed: 13th October 2022]

Gov.uk.(2022) National Curriculum in England Framework. Available at: <https://www.gov.uk/government/publications/national-curriculum-in-england-framework-for-key-stages-1-to-4> [Accessed: 17th October 2022]

Hallet, E. (2013) *The Reflective Early Years Practitioner*. London : SAGE Publications

Harvard. (2004) *Young Children Develop in an Environment of Relationships*. Available at: <https://developingchild.harvard.edu/wp-content/uploads/2004/04/Young-Children-Develop-in-an-Environment-of-Relationships.pdf> [Accessed: 17th October 2022]

HCPC. (2019) *How can Reflective Practice improve quality of Early Years*. Available at: <https://www.hcpc-uk.org/globalassets/news-and-events/benefits-of-becoming-a-reflective-practitioner---joint-statement-2019.pdf> [Accessed: 14th October 2022]

HM Government. (2018) *Working Together to Safeguard Children*. Available at: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/942454/Working_together_to_safeguard_children_inter_agency_guidance.pdf [Accessed: 16th October 2022]

<https://libguides.cam.ac.uk/reflectivepracticetoolkit/models> [Accessed: 17th October 2022]

Hwb.gov. (2022) *Curriculum for Wales*. Available at: <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales> [Accessed: 13th October 2022]

Hwb.gov.wales. (2022) *A Curriculum for funded non maintained nursery settings*. Available at: <https://hwb.gov.wales/api/storage/3e89a21c-60fb-416c-99dd-6e1af3982409/a-curriculum-for-funded-non-maintained-nursery-settings2.pdf> [Accessed: 11th October 2022]

I Can. (2016) 'How many children have SLCN?' Available at: http://www.ican.org.uk/What_is_the_issue/About%20SLCN/How%20many%20children%20have%20SLCN.aspx [Accessed: 16th October 2022]

Infed (2001) '*Donald Schon: Learning. Reflection and change*' <http://infed.org/mobi/donald-schon-learning-reflection-change> (Accessed: 14 October 2022)

Iris Connect. (2020) Available at: <https://blog.irisconnect.com/uk/sharing-and-collaboration-in-schools> [Accessed: 18th October 2022]

Kolbs reflective model image: <https://learn.solent.ac.uk/mod/book/view.php?id=2732&chapterid=1112>

Michigan Alliance for Families. (no date) Behavior is Communication. Available at: <https://www.michiganallianceforfamilies.org/behavior-is-communication/#:~:text=All%20behavior%20is%20a%20form,are%20not%20aware%20of%20it.> [Accessed: 15th October 2022]

Mindtools (no date) *What Is a SWOT Analysis?* Available at: https://www.mindtools.com/pages/article/newTMC_05.htm (Accessed: 15 October 2022)

NSPCC. (no date) Available at: <https://www.nspcc.org.uk/what-is-child-abuse/types-of-abuse/> [Accessed: 13th October 2022]

NSW Health. (2020) *Available at: What might someone, with behaviours that you find challenging, be trying to say?* <https://www.health.nsw.gov.au/mentalhealth/psychosocial/principles/Pages/behaviour-says.aspx> [Accessed: 17th October 2022]

NSW Health. (2020) *What factors can affect behaviour?* Available at: <https://www.health.nsw.gov.au/mentalhealth/psychosocial/principles/Pages/behaviour-factors.aspx> [Accessed: 17th October 2022]

Perez, R. (2019) 'What Does It Mean to Be a Professional?,' Professional Case Management. 24 (4) pp 212.

Reed, M. and Canning, N. (2010) *Reflective Practice in the Early Years*. London : SAGE Publications

Schons reflective model image: <https://nursinganswers.net/reflective-guides/schon-reflective-model.php>

Siraj, I. and Hallet, E. (2014) *Effective & caring leadership in the Early Years*. London : SAGE Publications

Tanguay, E., Hanratty, P. and Martin B. (2020) *Reflective Writing for Nursing, Health and Social Work*. London: Red Globe Press.

Ucd.ie. (no date) *What is reflective practice?* Available at: https://www.ucd.ie/teaching/t4media/reflective_practice_models.pdf

Unicef. (2017) *A summary of the UN Convention on the Rights of the Child*. Available at: <https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/wp-content/uploads/sites/4/2017/01/Summary-of-the-UNCRC.pdf> [Accessed: 20th October 2022]

Voscur. (2021) Developing and expanding reflective practice. (image) Available at: <https://www.voscur.org/calendar/event/developing-and-expanding-reflective-practice-your-organisation> Accessed: 16th October 2022]

WJEC. (2019) *Professional practice as a health and social care worker*. Available at: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_2-5/multi-lang/unit06/9-reflective-practice.html [Accessed: 19th October 2022]

Wokingham Government. () Available at: <https://www.wokingham.gov.uk/EasysiteWeb/getresource.axd?AssetID=75433&#:~:text=Multi%2Dagency%20working%20can%20make,for%20children%20and%20young%20people.> [Accessed: 15th October 2022]